

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Barrie David and Associates  
Dental Practice, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Abertawe Bro  
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 1 Tachwedd  
2017

Dyddiad cyhoeddi: 2 Chwefror  
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf? .....	28
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	29
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	30
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn rhoi barn wrthrychol ar sail yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Darparu barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Barrie David and Associates Dental Practice, 88 Stryd Pisgah, Mynyddcynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6DA, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 1 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Barrie David and Associates Dental Practice yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Roedd y practis yn lân a thaclus ac yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer ei gleifion.

Roedd gan y practis arlwy o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, ond gwnaethom argymhell bod angen adolygu a diweddarau'r rhain.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd caredig a chwrtais.
- Roedd yr ardaloedd clinigol i'w gweld yn lân ac yn daclus ac yn llawn cyfarpar.
- Roedd cyfarpar deintyddol wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen adolygu a diweddarau'r holl bolisiâu, gan sicrhau eu bod yn cynnwys yr wybodaeth a chanllawiau diweddaraf a'u bod yn hawdd eu darllen.
- Dylai'r practis sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig yn bresennol yn y practis pan fydd ar agor.
- Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion deintyddol yn cael eu cwblhau gyda'r holl ddata gofynnol ar bob ymweliad a bod hanesion meddygol yn cael eu dyddio a'u cydlofnodi. Rhaid i bob ystafell driniaeth gael manau sydd wedi'u nodi'n glir fel rhai "glân" a "budr" er mwyn sicrhau nad oes unrhyw groes-heintio.

- Rhaid i'r practis ddefnyddio lamp fwyhau yn yr ystafell ddadheintio er mwyn archwilio'r cyfarpar cyn ei sterileiddio.
- Mae angen i'r staff gael mynediad at gyfarpar diogelu personol a'i ddefnyddio wrth weithio yn yr ystafell ddadheintio.
- Rhaid i'r practis roi proses ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau a'u storio'n briodol a'u bod yn cael eu gwirio bob mis i sicrhau nad yw'r dyddiad arnynt wedi dod i ben.
- Rhaid i'r holl staff gael hyfforddiant rheoli heintiau priodol, yn unol â gofynion cyfredol datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mae angen sylw ar y lloriau a'r cefnfyrdau yn yr ardaloedd clinigol a rhaid gorchuddio bysellfyrdau neu eu newid am fyselfyrdau y gellir eu glanhau.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Barrie David and Associates Dental Practice yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardaloedd Mynyddcynffig, Cefn Cribwr, Pen-y-bont ar Ogwr, y Pîl, Porthcawl a Chorneli. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys wyth deintydd, un hylenydd rhan-amser, saith nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant a dau dderbynnydd rhan-amser. Rhennir rôl rheolwr y practis gan ddwy o'r nyrsys deintyddol.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn hapus â'r gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu cael.

Roedd y practis yn mynd ati i gael adborth cleifion drwy gynnal arolwg, ond roedd angen iddo roi proses ar waith i gofnodi sylwadau cadarnhaol a negyddol gan gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Does dim angen gwella, gwasanaeth rhagorol"*

*"Ni ellir ei wella, gwasanaeth rhagorol"*

*"Mwy na hapus gyda'r apwyntiadau a'r driniaeth"*

*"Bob amser yn gwrtais ac yn barod eu cymwynas"*

## Cadw'n iach

Roedd amrywiaeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y man aros a thu allan i'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth, posteri a gwybodaeth benodol ynghylch triniaethau a chynghor ataliol. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Er bod taflenni yn y man aros a oedd yn rhoi gwybodaeth am sut i roi'r gorau i ysmegu, nid oedd unrhyw arwyddion "dim ysmegu" wedi'u harddangos yn y practis. Er mwyn pwysleisio bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch safleoedd di-fwg, argymhellwn fod y practis yn arddangos arwyddion "dim ysmegu" wrth y brif fynedfa a/neu yn y man aros.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos arwyddion "dim ysmegu" wrth y brif fynedfa a/neu yn y man aros.

## Gofal ag urddas

Dyweddodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi'i drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd gan y practis fan aros a derbynfa fawr. Dywedodd staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat gyda chlaf, y gellid gwneud hyn yn yr ystafell staff neu mewn ystafell driniaeth wag.

Roedd y practis mewn adeilad un llawr, a oedd yn golygu bod y man aros a'r ystafelloedd triniaeth yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Caiff drysau'r ystafelloedd triniaeth eu cau yn ystod triniaeth, gan roi preifatrwydd ac urddas i'r claf.

## Gwybodaeth i gleifion

Dyweddodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw drafodaethau a gynhelir ynghylch ei ofal deintyddol i'r graddau yr oedd yn dymuno. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

O'r cleifion hynny a gwblhaodd holiadur, dywedodd 14 ohonynt fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei nodi'n glir iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, ond dywedodd chwech claf nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Yn ogystal â'r deunydd hyrwyddo iechyd deintyddol a oedd ar gael yn y man aros, roedd rhestr brisiau a oedd yn nodi costau triniaethau deintyddol y GIG a rhestr brisiau a oedd yn nodi costau triniaeth ddeintyddol breifat wrth ddesg y dderbynfa.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddodd y 15 o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn siarad â chleifion yn gwrtais ac yn foesgar.

## **Gofal amserol**

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd y practis yn sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Cawsom wybod gan y staff y byddent yn cael eu hysbysu trwy neges ar y cyfrifiadur o'r ystafell driniaeth os oedd deintydd yn rhedeg yn hwyr, a byddent wedyn yn sicrhau bod y cleifion a oedd yn aros yn cael eu hysbysu.

Gwelsom fod manylion y deintyddion sy'n ymarfer yn y practis ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad. Roedd neges peiriant ffôn ar gael hefyd a oedd yn hysbysu cleifion o bwy i gysylltu ag ef am driniaeth y tu allan i oriau gwaith. Roedd yr wybodaeth hon hefyd wedi'i harddangos ger prif fynedfa'r practis.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### **Hawliau pobl**

Mae'r brif fynedfa, y dderbynfa a'r man aros a'r ystafelloedd triniaeth i gyd yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Er bod allanfa dân ym mhen blaen yr adeilad a oedd yn hygyrch, arweiniai'r allanfa dân yng nghefn yr adeilad at faes parcio'r cleifion a staff, ond gellid dim ond ei gyrraedd trwy risiau. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried gosod ramp er mwyn galluogi cleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn i adael yr adeilad. Hefyd, efallai yr hoffai'r practis ystyried cysylltu â'i swyddog diogelwch tân i adolygu'r allanfeydd tân.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Dywedodd 13 o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau yr oeddent wedi'u derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis un polisi cwynion a oedd yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn â thriniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Nid oedd y polisi'n adlewyrchu proses gwyno'r GIG, "Gweithio i Wella",<sup>1</sup> er bod posteri a thafleuni gwybodaeth yn y man aros. O ran cwynion ynghylch triniaeth ddeintyddol breifat, nid oedd y polisi'n cyfeirio at AGIC, yr awdurdod cofrestru, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.<sup>2</sup> Argymhellwn fod y practis yn diwygio ei bolisi i gynnwys cyfeiriad at "Gweithio i Wella". Rydym hefyd yn cynghori y gallai'r practis ddymuno gwahanu polisi cwynion y GIG o'r hyn sy'n berthnasol i driniaeth ddeintyddol breifat er mwyn hwyluso dealltwriaeth cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal arolwg cleifion yn ystod 2016 ac roedd holiaduron a oedd yn gofyn am adborth cleifion yn ardal y dderbynfa ar adeg yr arolygiad. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y practis yn nodi unrhyw themâu nac yn gweithredu ar yr adborth a dderbyniwyd. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y practis wedi gofyn eu barn ar y practis deintyddol.

Heblaw am adborth a gafwyd o arolygon cleifion, nid oedd y practis yn cofnodi cwynion, pryderon nac adborth llafar/anffurfiol cleifion. Bydd cadw cofnod yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu a allai godi o gwynion. Argymhellwn y dylai'r practis ddatblygu dull o gofnodi'r holl adborth gan gleifion, yn enwedig cwynion, gan gadw cofnod o natur y gŵyn, y camau a gymerwyd gan y practis ac unrhyw ganlyniad. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r practis gynnal cofnod o unrhyw adborth a geir gan gleifion ar lafar neu'n anffurfiol.

---

<sup>1</sup> "Gweithio i Wella yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn creu ffeil bwrpasol i gofnodi holl adborth cleifion a, lle bo'n briodol, camau gweithredu ac ymatebion y practis.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Gwelsom gonaethau ar waith a oedd yn sicrhau bod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Byddem yn cynghori'r practis i adolygu ei drefniadau ar gyfer cael gwared ar wastraff clinigol.

Canfuom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus ac wedi'u gosod yn dda, ond roedd angen gwella'r lloriau a'r byrddau sgyrtin a'r cefnfyrdau er mwyn hwyluso glanhau a chael gwared ar fudredd a llwch a allai gronni yno.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf a bod hanesion meddygol yn gyfredol.

### **Gofal diogel**

Cafodd ein pryderon ynghylch absenoldeb llyfr Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) eu crybwyll yn ystod yr arolygiad ac, mewn ymateb i hyn, archebodd y prif ddeintydd lyfr damweiniau priodol ar unwaith.

Gwnaeth y prif ddeintydd hefyd archebu padiau pediatrig ar gyfer y diffibriliwr pan dynnwyd ei sylw at y ffaith fod angen y rhain.

Rhoddir manylion y gwelliannau yr oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad A.

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y cleifion a gwblhaodd holiadur ynghylch glendid y practis deintyddol. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod bwlch rhwng y cefnfwrdd alwminiwm a'r wal a rhwng y "teils" unigol, lle y gallai budredd a llwch gasglu. Argymhellwn fod ymylon y cefnfyrdau a'r bylchau rhwng y teils alwminiwm yn cael eu selio er mwyn cael gwared ar unrhyw lwch a budredd. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd yr ymylon rhwng y lloriau a'r waliau wedi'u selio, a chynghorwn y practis i ystyried rhoi sylw i hyn gyda gorffeniad di-dor er mwyn hwyluso glanhau trwyadl.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy gydol yr adeilad, a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Roedd contractau ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) a gwastraff amalgam. Roedd y contract ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (ond nid amalgam) gyda gwasanaeth amlogi anifeiliaid anwes. Rhaid i bractisau deintyddol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr amrediad llawn o wastraff a grëir yn cael ei waredu'n briodol, yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol, gan sicrhau bod risgiau neu risgiau posibl o halogiad neu heintiau o fewn a thu allan i'r practis yn cael eu lleihau. Mae'r canllawiau cyfredol<sup>3</sup> yn nodi mai busnesau awdurdodedig sy'n gorfod cael eu defnyddio i gasglu, ailgylchu neu gael gwared ar wastraff peryglus. Byddem yn cynghori'r practis i drefnu bod contractwr sy'n arbenigo ar gael gwared ar wastraff clinigol deintyddol yn casglu ac yn cael gwared ar ei wastraff peryglus, gan gynnwys gwastraff amalgam.

Er bod y practis yn cofnodi damweiniau, nid oedd ganddo lyfr Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), a fyddai'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Daethpwyd â hyn at sylw'r prif ddeintydd, a wnaeth archebu llyfr RIDDOR yn ystod yr arolygiad.

---

<sup>3</sup><http://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/waste-management/hazardous-waste-returns/?lang=cy>

Gwnaethom nodi bod deunyddiau glanhau domestig y practis yn cael eu storio yn yr un cwpwrdd â'r cywasgwr, ac nad oedd wedi'i gloi. Cynghorwn y practis i naill ai gloi'r drws neu symud y deunyddiau i gwpwrdd y gellir ei gloi er mwyn sicrhau diogelwch cleifion, ac arddangos arwydd "deunyddiau peryglus" ar y drws. Roedd cynhwysydd y gwastraff clinigol wedi'i gloi ac yn ddiogel yng nghefn y practis.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002,<sup>4</sup> mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau'r adegau y daw staff i gyswllt â sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Roedd gan y practis restr wirio o reolaethau 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH). Argymhellwn fod y practis yn cynnal asesiadau COSHH ac yn paratoi taflenni data diogelwch, gan ddarparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'berylus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.

Roedd hi'n hawdd dod o hyd i doiled y cleifion a gwnaethom nodi ei fod yn lân ac yn ddilanastr. Efallai yr hoffai'r practis ystyried gosod cymhorthion/rheiliau ychwanegol, gan ystyried ei grŵp cleifion. Roedd toiled drws nesaf i'r ystafell staff hefyd at ddefnydd y staff, a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio i storio cotiau. Roedd hwn hefyd yn lân ac yn daclus.

Ar adeg ein hymweliad, roedd cyfleusterau i gael gwared ar gynhyrchion hylendid benywaidd yn nhoiled y staff ond nid yn nhoiled y cleifion. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis adolygu ei reoliadau presennol o ran y ddarpariaeth hon a darparu'r amwynderau angenrheidiol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y cefnfyrdau'n cael eu selio er mwyn cael gwared ag unrhyw fudredd a llwch.

Argymhellwn fod y practis yn cynnal asesiad COSHH ac yn paratoi taflenni data diogelwch, gan ddarparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'berylus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis

---

<sup>4</sup> <http://www.hse.gov.uk/coshh/>



yn ddiogel.

Mae angen cyflwyno cyfleusterau ar gyfer cael gwared ar wastraff hylendid benywaidd mewn ffordd hylan yn nhoiled y cleifion.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<sup>5</sup> Gwnaethom hefyd nodi bod gan bob ystafell driniaeth sinciau ar wahân ar gyfer "golchi dwylo" ac offer "budr". Ym mhob achos, roedd y ddwy sinc wedi'u labelu ar gyfer "golchi dwylo" yn hytrach nag un yn unig. Argymhellwn fod gan bob ystafell driniaeth fannau sydd wedi'u nodi'n glir fel rhai "glân" a "budr" er mwyn sicrhau nad oes unrhyw groesheintio.

Roedd gan bob ystafell driniaeth gyfrifiadur. Dylai gorchuddion gael eu rhoi dros fysellfyrdau cyfrifiaduron mewn mannau clinigol am resymau rheoli heintiau neu dylid amnewid bysellfyrdau traddodiadol am fysellfyrdau "hawdd eu glanhau" sy'n dal dŵr. Argymhellwn fod y practis yn gorchuddio neu'n amnewid y bysellfyrdau, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Gwelsom fod protocol ar gyfer ymdrin ag anafiadau nodwyddau ar wal yr ystafell staff.

Roedd gan y practis bowlenni pwrpasol ar gyfer dadheintio. Er bod y rhain yn addas i'r diben, roeddent wedi bod yno am beth amser, a chynghorir fod y practis yn eu newid. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r practis ddarparu thermomedr er mwyn sicrhau bod y dŵr a ddefnyddir yn y broses gyn-sterileiddio ar y tymheredd cywir.

Roedd gan y practis ddau beiriant awtoclaf, a gwelsom dystiolaeth eu bod yn dilyn rhaglenni cynnal a chadw dyddiol. Roedd y gwaith o lanhau offer cyn-

---

<sup>5</sup> Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

sterileiddio'n cael ei wneud â llaw. Er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau, byddem yn cynghori'r practis i ystyried cael gafael ar faddon uwchsonig ar gyfer y dasg hon ac, yn y cyfamser, argymhellwn ei fod yn defnyddio lamp fwyhau, gyda golau priodol, er mwyn archwilio'r offer cyn eu sterileiddio. Mae'n bwysig fod gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol wrth weithio yn yr ystafell ddadheintio, ac argymhellwn fod ffedogau untro'n cael eu darparu.

Er bod rhai offer a chyfarpar wedi'u storio'n briodol yn yr ystafelloedd triniaeth, gwnaethom sylwi nad oedd rhai wedi'u rhoi mewn bagiau na'u llofnodi ar ôl bod trwy'r broses ddadheintio. Yn ogystal, roedd dyddiad defnyddio rhai offer wedi dod i ben. Argymhellwn fod y practis yn rhoi proses ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau a'u storio'n briodol a'u bod yn cael eu gwirio bob mis er mwyn sicrhau bod eu dyddiad defnyddio'n parhau i fod yn gyfredol. Rydym hefyd yn argymhell bod pennau tynnu cen yn cael eu storio mewn pecynnau dan sêl a'u dyddio, yn yr un modd ag offer dadheintio.

Gwnaethom nodi bod olion dannedd yn cael eu dadheintio gyda chwistrellwr dadheintio. Argymhellwn fod gan bob ystafell driniaeth gynhwysydd pwrpasol ar gyfer mwydo olion dannedd a gwaith deintyddol arall a ddaw o'r labordy.

Gwnaethom nodi nad oedd gan un nyrs ddeintyddol dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau, ac argymhellir bod hyn yn cael ei unioni.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i bob ystafell driniaeth gael manau sydd wedi'u nodi'n glir fel rhai "glân" a "budr" er mwyn sicrhau nad oes unrhyw groes-heintio.

Rhaid i'r practis ddefnyddio lamp fwyhau yn yr ystafell ddadheintio er mwyn archwilio'r cyfarpar cyn ei sterileiddio.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol wrth weithio yn yr ystafell ddadheintio.

Rhaid i'r practis roi proses ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau a'u storio'n briodol a'u bod yn cael eu gwirio bob mis i sicrhau nad yw'r dyddiad arnynt wedi dod i ben.

Argymhellwn fod gan bob ystafell driniaeth gynhwysydd pwrpasol ar gyfer mwydo olion dannedd a gwaith deintyddol arall a ddaw o'r labordy.

Yn unol â'r canllawiau cyfredol, dylai'r practis ddarparu gorchuddion ar gyfer y bysellfyreddau neu brynu bysellfyreddau y gellir eu glanhau.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob aelod o'r staff dystysgrifau cyfredol sy'n nodi eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol ar reoli heintiau, yn unol â gofynion cyfredol datblygiad proffesiynol parhaus.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym mai ef oedd y gweithiwr cymorth cyntaf a benodwyd, ond nid oedd ganddo dystysgrif gyfredol a dim ond tri diwrnod yr wythnos y mae'n gweithio yn y practis. Roedd gan un o'r deintyddion dystysgrif cymorth cyntaf, ond dim ond rhan amser y mae'n gweithio yn y practis, felly mae perygl nad oes unrhyw weithiwr cymorth cyntaf ar y safle ar rai diwrnodau. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod digon o staff yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn sicrhau bod gweithiwr cymorth cyntaf yn bresennol yn y practis ar bob adeg.

Roedd gan yr holl staff dystysgrifau a oedd yn dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddadebru cardio-anadlol o fewn y 12 mis diwethaf.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd cyffuriau a chyfarpar argyfwng, llyfrau presgripsiynau na chwistrelli a ddefnyddiwyd i weinyddu anesthetig lleol yn cael eu storio'n briodol. Argymhellwn fod y rhain i gyd yn cael eu storio'n ddiogel. Yn ogystal, dylai drws y cwpwrdd lle y caiff y silindr ocsigen ei storio arddangos arwydd "nwy cywasgedig".

Er bod y cyffuriau a oedd yn cael eu storio yn y practis o fewn eu dyddiad defnyddio, yn unol â'r safonau a nodwyd gan Gyngor Dadebru'r DU,<sup>6</sup> gwnaethom sylwi nad oedd unrhyw system ar waith ar gyfer gwirio dyddiadau dod i ben cyffuriau argyfwng a chwistrelli/nodwyddau mewn modd trefnus a rheolaidd na deunyddiau a stociau a gadwyd ym mhob ystafell driniaeth.

---

<sup>6</sup> Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

Roedd gan y practis ddiffibriliwr allanol awtomatig ar y safle – gyda phadiau i'w defnyddio gydag oedolion – a oedd yn cael ei storio mewn cwpwrdd. Cyngorir bod y cwpwrdd yn cael ei labelu er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o le mae'r diffibriliwr. Pan dynnwyd sylw'r prif ddeintydd at y ffaith nad oedd padiau pediatriig gyda'r diffibriliwr, unionodd hyn yn ystod yr arolygiad trwy archebu rhai o'r rhain.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod digon o staff yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf a sicrhau bod gweithiwr cymorth cyntaf yn bresennol yn y practis ar bob adeg.

Rhaid i'r practis sicrhau bod cyffuriau ac offer argyfwng, llyfrau presgripsiwn a chwistrelli a ddefnyddir i weinyddu anesthetig lleol yn cael eu storio mewn manau diogel.

Rhaid i'r practis arddangos arwydd "nwy cywasgedig" ar ddrws y cwpwrdd lle y cedwir y silindr ocsigen (rhan o'r pecyn argyfwng).

Mae angen i'r practis roi proses ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau rheolaidd ar ddyddiadau dod i ben cyffuriau argyfwng a chwistrelli/nodwyddau a deunyddiau a stociau a gedwir ym mhob ystafell driniaeth.

Mae angen i'r practis sicrhau bod padiau pediatriig yn cael eu prynu i'w defnyddio gyda'r diffibriliwr.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod ganddo bolisi amddiffyn plant ac oedolion ar y cyd. Fodd bynnag, roedd mwy nag un fersiwn o'r polisi ar ffeil, ac nid oedd yr un diweddaraf yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer pob tîm diogelu lleol perthnasol.

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd un nyrs ddeintyddol wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac nid oedd un deintydd a thair nyrs ddeintyddol wedi derbyn hyfforddiant diweddar ar amddiffyn oedolion agored i niwed. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod staff sydd â mynediad at gleifion yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar holl aelodau'r staff.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan y staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol a'u bod yn ei gwblhau.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol, ac roedd y rhain i'w gweld yn lân. Roedd pob ystafell driniaeth wedi'i chynllunio a'i gosod mewn modd a oedd yn sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Roedd pob ystafell driniaeth hefyd yn arddangos y rheolau lleol, a chynghorir y byddai'n well pe bai'r rhain yn cael eu gosod ar bwys y rheolaethau pelydr-X. Nod Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000<sup>7</sup> yw lleihau'r adegau y daw cleifion i gyswllt ag ymbelydredd yn ystod triniaethau meddygol. Cynghorir y practis i osod mesurydd dogn ymbelydredd ar ddarn llaw pob peiriant pelydr-X er mwyn galluogi staff i sicrhau na ddefnyddir mwy na'r dogn diogel o ymbelydredd.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chadw ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol, ond nid oedd y cyfarwyddiadau gweithio, gan gynnwys cynllun wrth gefn ar gyfer prosesu a storio pe bai cyfarpar yn camweithio, wedi'u llofnodi na gyda stamp y practis arnynt, a byddem yn cynghori bod hyn yn cael ei unioni.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>8</sup> a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd pob deintydd, un nyrs ddeintyddol

---

<sup>7</sup> [http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi\\_20001059\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf)

<sup>8</sup> Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

a'r hylenydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Cynghorir bod yr holl nyrsys deintyddol yn cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar ymbelydredd.

Nodwyd gennym nad oedd unrhyw wiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y cywasgwr. Roedd staff yn gwirio'r offer â llaw / yn weledol, ond nid oedd y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi. Awgrymwn fod y practis yn rhoi rhaglen o wiriadau rheolaidd a manwl ar waith a gaiff eu cofnodi.

Roedd yr holl gyfarpar dadheintio'n cael ei wirio'n rheolaidd ac roedd llyfrau cofnodi'n cael eu cynnal a'u cadw.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis osod mesuryddion dogn ymbelydredd ar ddarn llaw pob peiriant pelydr-X er mwyn galluogi staff i sicrhau na ddefnyddir mwy na'r dogn diogel o ymbelydredd.

Mae angen i'r practis roi rhaglen ar waith i gadw llyfr cofnodi o wiriadau rheolaidd a manwl a wneir ar y cywasgwr.

### **Gofal effeithiol**

#### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu'n barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cynnal archwiliadau yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac yn archwilio'r gwaith o gadw cofnodion deintyddol. Gwnaeth y practis hefyd gynnal Hunanasesiad GIG Cymru o Lywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd yn ystod 2016. Argymhellwn fod y practis yn cynnwys sicrwydd ansawdd lluniau yn ei archwiliadau clinigol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Fel rhan o'i amrediad o archwiliadau clinigol, dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd lluniau.

#### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd gan y practis gyfuniad o gofnodion papur ac electronig a gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu storio'n briodol i sicrhau diogelwch data personol. Roedd ffeiliau electronig yn cael eu cadw'n rheolaidd a ffeiliau papur yn cael eu

storio mewn cabinetau ffeilio yn y dderbynfa, a oedd â staff yn bresennol ar bob adeg.

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisi diogelu data, polisi diogelwch data a pholisi rhyddid gwybodaeth.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Mewn rhai achosion, canfuom fod rhai pethau ar goll, megis y canlynol:

- Nid oedd hanesion meddygol yn gyfredol a dylent gael eu cydlofnodi gan y deintydd
- Diffyg tystiolaeth o gyngor yn cael ei roi ar roi'r gorau i ysmegu
- Diffyg tystiolaeth o gynnal profion sgrinio am ganser
- Dim tystiolaeth fod gwiriadau'n cael eu cynnal ar feinweoedd meddal
- Nid oedd cynlluniau triniaeth yn cael eu cofnodi bob amser
- Nid oedd pelydrau-X cleifion bob amser yn cael eu cyfiawnhau na'u cofnodi

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:

- Cyngor ar roi'r gorau i ysmegu
- Sgrinio am ganser
- Gwiriadau ar feinweoedd meddal
- Cynlluniau triniaeth
- Cyfiawnhau a chofnodi pelydrau-X

Rhaid i'r practis sicrhau bod hanesion meddygol cleifion yn gyfredol a'u bod yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd ac yn rhan amser gan ddwy nyrs ddeintyddol.

Canfuom fod gan y practis systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar gyfer ei gleifion.

Gwelsom amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, a oedd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddarau pob un o'r rhain a thynnu hen ddogfennau allan o'r ffeiliau.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Barrie David Associates Dental Practice yn eiddo i'r prif ddeintydd, sy'n gweithio yno dri diwrnod yr wythnos. Mae dwy nyrs ddeintyddol yn rhannu rôl rheolwr y practis, ond nid ydynt wedi egluro'u dyletswyddau'n llawn eto. Gwelsom berthynas dda rhwng staff y practis.

Gwelsom fod amrywiaeth dda o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi amddiffyn rhag ymbelydredd na pholisi trafod mercwri. Argymhellwn fod y rhain yn cael eu llunio a'u rhoi ar waith.

Roedd yr holl bolisiâu a gweithdrefnau wedi'u diweddarau â llaw ac roedd y ffeiliau'n cynnwys nifer o fersiynau cynharach o rai o'r polisiâu. Roedd hyn yn gwneud y ffeiliau'n ddryslyd ac yn anodd i'r staff sicrhau eu bod yn darllen yr wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf. Argymhellwn fod y polisiâu a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a, lle y bo'n briodol, eu diweddarau. Argymhellwn hefyd mai dim ond y polisiâu a'r gweithdrefnau mwyaf perthnasol y dylid eu cadw yn y ffeil, oherwydd bydd hyn yn sicrhau bod gan staff hyder yn



y ffaith fod ganddynt fynediad at yr wybodaeth a'r canllawiau mwyaf perthnasol/cyfredol. Rydym hefyd yn cynghori y dylai'r staff lofnodi pob dogfen i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi ar y cyd ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Nid oedd yn cynnwys manylion y timau diogelu lleol. Argymhellwn fod y polisi'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau fel ei fod yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau amddiffyn plant ac oedolion perthnasol.

Yn dilyn ymadawriad rheolwr amser llawn y practis yn gynharach yn ystod 2017, roedd y rôl yn cael ei rhannu gan ddwy o nyrsys y practis yn rhan amser. Dywedwyd wrthym nad oedd eu dyletswyddau na dyraniad eu hamser wedi'u cytuno eto. Hyd yma, mae'r prif ddeintydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros adolygu polisïau a gweithdrefnau'r practis, ond ychydig o amser y mae'n gallu ymroi i'r dasg hon am ei fod dim ond yn gweithio'n rhan amser. Felly, byddem yn cynghori bod y nyrsys deintyddol / rheolwyr y practis yn ymgymryd â'r dasg hon fel rhan o'u dyletswyddau.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau, ac yn eu diweddarau a'u storio lle bo'n briodol yn y ffeiliau, gan gael gwared ar fersiynau blaenorol.

Dylai'r practis adolygu ei bolisi diogelu plant ac oedolion er mwyn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau amddiffyn plant ac oedolion perthnasol.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom fod tystysgrifau AGIC ar gyfer pob deintydd ond un wedi'u harddangos naill ai yn y dderbynfa neu yn yr ystafell driniaeth, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Dywedwyd wrthym fod y dystysgrif goll wedi'i harddangos ym mhreactis arall y deintydd. Argymhellwn fod tystysgrifau AGIC pob deintydd yn cael eu harddangos fel y gall cleifion eu gweld.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, a chaiff cofnodion eu cymryd ar ôl y rhain. Dangosodd y cofnodion fod staff yn dysgu yn ystod y cyfarfodydd hyn. Dywedwyd wrthym hefyd fod y nyrsys deintyddol yn cynnal

cyfarfodydd anffurfiol i drafod materion sy'n berthnasol i'w rôl. Cyngorwn fod y deintyddion yn cwrdd er mwyn cynnal adolygiadau gan gymheiriaid.

Nid oedd gan y practis raglen ymsefydlu ffurfiol. Mae pob aelod newydd o staff yn cysgodi staff mwy profiadol. Argymhellwn fod y practis yn datblygu rhaglen ymsefydlu ac adolygu ffurfiol ar gyfer aelodau staff y dyfodol. Roedd tystiolaeth o arfarniadau staff. Cyngorwn fod y nyrsys deintyddol / rheolwyr y practis yn cynnal arfarniadau blynyddol o staff y dderbynfa a nyrsys deintyddol, yn monitro datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant staff, ac yn monitro'r rhaglenni cynnal a chadw offer a chyfleustodau fel rhan o'u dyletswyddau.

Er bod cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi cael eu himiwneddio rhag hepatitis B er mwyn amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau, roedd chwe aelod o staff naill ai angen pigladau atgyfnerthu neu'n aros am ganlyniadau profion gwaed. Roedd gan y practis lythyrau gan adran iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd a oedd yn cadarnhau bod y staff clinigol hyn wedi cael "cliriad iechyd" i ymgymryd â'u rôl glinigol. Nid oedd y nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant wedi cael unrhyw frechiadau am fod prinder o'r brechlyn yn genedlaethol. Nid oedd y prif ddeintydd wedi cynnal asesiad risg, ond nododd y byddai'n cysylltu ag yr adran iechyd galwedigaethol i gael cyngor ar hyn. Argymhellwn ei fod yn gwneud hyn ac yn cydgysylltu'r hyfforddiant i ystyried unrhyw gyngor a gafodd a diffyg imiwnedd y nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant.

Mae'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat yn gofyn i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru gael tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar holl aelodau'r staff clinigol. Gwelsom fod y prif ddeintydd wedi adnewyddu ei gliriad yn ddiweddar, ac roedd llythyr ar feil gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cadarnhau bod ei dystysgrif wedi'i hanfon ar 11 Hydref 2017. Nid yw wedi dod i law eto. Roedd y prif ddeintydd wedi gofyn am dystysgrif arall yn ei lle.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, rhaid i'r practis arddangos tystysgrifau AGIC pob deintydd fel y gall cleifion eu gweld.

Argymhellwn fod y practis yn datblygu rhaglen ymsefydlu ac adolygu ffurfiol ar gyfer aelodau staff y dyfodol.

Dylai'r practis gynnal asesiad risg o staff clinigol sy'n aros am gadarnhad o'u

himiwnedd rhag hepatitis B, ac o'r nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant sy'n aros i gael y brechlyn.

## 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Yn cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Er bod y practis yn cofnodi damweiniau, nid oedd ganddo lyfr Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), a fyddai'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.</p>	<p>Mae'n rhaid i bob cyflogwr a phobl sy'n rheoli safleoedd gwaith adrodd damweiniau a digwyddiadau a nodir gan RIDDOR a chadw cofnodion o'r rhain. Diben hyn yw galluogi awdurdodau gorfodi i nodi lle a sut y mae risgiau'n ymddangos, ac a oes angen eu hymchwilio.</p>	<p>Gwnaethom dynnu sylw'r prif ddeintydd at hyn, ac argymhell ei fod yn cael ei newid am lyfr damweiniau sy'n cynnwys y manylion cyswllt a'r protocolau angenrheidiol.</p>	<p>Yn ystod yr arolygiad, dangosodd y prif ddeintydd gopi i ni o archeb i brynu llyfr RIDDOR newydd.</p>
<p>Er bod gan y practis badiu oedolion i'w defnyddio gyda'r diffibriliwr awtomatig allanol ar y safle, nid oedd ganddo badiu pediatrig.</p>	<p>Gallai defnyddio padiau oedolion ar blentyn fod yn niweidiol.</p>	<p>Gwnaethom dynnu sylw'r prif ddeintydd at hyn yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Cyflwynodd y prif ddeintydd archeb ar gyfer padiau pediatreg, a fydd yn cael eu storio gyda'r diffibriliwr.</p>

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** **Barrie David and Associates Dental Practice**

**Dyddiad yr arolygiad:** **1 Tachwedd 2017**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Barrie David and Associates Dental Practice

**Dyddiad yr arolygiad:** 1 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r practis arddangos arwyddion "dim ysmygu" wrth y brif fynedfa a/neu yn y man aros.	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd	Bellach ar waith	Barrie David	Ar unwaith
Argymhellwn fod y practis yn creu ffeil bwrpasol i gofnodi holl adborth cleifion a, lle bo'n briodol, camau gweithredu ac ymatebion y practis.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Bellach ar waith	Jo Sperduty	Ar unwaith
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Argymhellwn fod y cefnfyrdau'n cael eu selio er mwyn cael gwared ag unrhyw fudredd a llwch.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd	Wedi cysylltu â chontractwr i gwblhau'r gwaith hwn	Barrie David	3 Chwefror 2018



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Argymhellwn fod y practis yn cynnal asesiad COSHH ac yn paratoi taflenni data diogelwch, gan ddarparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.	a diogelwch	Cynhaliwyd asesiad COSHH ar ôl anerchiad mewnol Bryan Webber yn y practis ym mis Medi 2016, ond, yn anffodus, nid oedd hwn ar gael i chi ar ddiwrnod yr arolygiad.	Barrie David	Ar unwaith
Mae angen cyflwyno cyfleusterau ar gyfer cael gwared ar wastraff hylendid benywaidd mewn ffordd hylan yn nhoiled y cleifion.		Rydym wedi cysylltu ag Initial ac wedi trefnu iddynt osod cynhwysydd.	Barrie David	Ail wythnos mis Ionawr 2018
Rhaid i bob ystafell driniaeth gael manau sydd wedi'u nodi'n glir fel rhai "glân" a "budr" er mwyn sicrhau nad oes unrhyw groes-heintio.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Wedi'i gwblhau eisoes	Jo Chappell	Ar unwaith
Rhaid i'r practis ddefnyddio lamp fwyhau yn yr ystafell ddadheintio er mwyn archwilio'r cyfarpar cyn ei sterileiddio.		Wedi'i harchebu	Barrie David	8 Ionawr 2018
Rhaid i'r practis sicrhau bod gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol wrth weithio yn yr ystafell ddadheintio.		Ffedogau untro wedi'u harchebu er mwyn ategu'r cyfarpar diogelu personol presennol	Jo Chappell	8 Ionawr 2018
Rhaid i'r practis roi proses ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau a'u		Mae'r holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau bellach, a chaiff y "dyddiad	Jo Sperduty a Jo Chappell	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
storio'n briodol a'u bod yn cael eu gwirio bob mis i sicrhau nad yw'r dyddiad arnynt wedi dod i ben.		derbyn" ei wirio a'i gofnodi mewn llyfr cofnodi ar gyfer pob ystafell driniaeth		
Argymhellwn fod gan bob ystafell driniaeth gynhwysydd pwrpasol ar gyfer mwydo olion dannedd a gwaith deintyddol arall a ddaw o'r labordy.		Cynwysyddion wedi'u gosod yn y chwe ystafell driniaeth	Jo Chappell	Ar unwaith
Yn unol â'r canllawiau cyfredol, dylai'r practis ddarparu gorchuddion ar gyfer y bysellfyrdau neu brynu bysellfyrdau y gellir eu glanhau.		Cysylltwyd â'n cyflenwr caledwedd, RCL, a byddant yn gwneud trefniadau i osod bysellfyrdau y gellir eu glanhau.	Barrie David	3 Chwefror 2018
Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob aelod o'r staff clinigol dystysgrifau cyfredol sy'n nodi eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol ar reoli heintiau, yn unol â gofynion cyfredol datblygiad proffesiynol parhaus.		Darparwyd yr hyfforddiant mewnol hwn gan yr adran ôl-raddedig o'r blaen, ond mae bellach wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Rydym wrthi'n ymchwilio lleoliadau eraill i'w mynychu ar gyfer yr hyfforddiant hwn.	Jo Sperduty Barrie David	Mawrth 2018
Rhaid i'r practis sicrhau bod digon o staff yn mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf a sicrhau bod gweithiwr cymorth cyntaf yn bresennol yn y practis ar bob adeg.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Wedi cysylltu â phencadlys Caerdydd Ambiwylans Sant Ioan i drefnu hyfforddiant "mewnol" i'r holl staff.	Barrie David	18 Chwefror 2018
Rhaid i'r practis sicrhau bod cyffuriau ac offer argyfwng, llyfrau presgripsiwn a chwistrelli a		Yn unol â'ch cais, mae cyffuriau ac offer argyfwng, llyfrau presgripsiwn a	Barrie David	27 Rhagfyr

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddefnyddir i weinyddu anesthetig lleol yn cael eu storio mewn mannau diogel.		chwistrelli a ddefnyddir i weinyddu anesthetig lleol bellach yn cael eu storio mewn mannau diogel yn ystafell y staff.		2017
Rhaid i'r practis arddangos arwydd "nwy cywasgedig" ar ddrws y cwpwrdd lle y cedwir y silindr ocsigen.		Trefniadau ar waith i gael arwydd "nwy cywasgedig" wedi'i argraffu a'i arddangos ar ddrws y cwpwrdd.	Barrie David	Ionawr 2018
Mae angen i'r practis roi proses ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau rheolaidd ar ddyddiadau dod i ben cyffuriau argyfwng a chwistrelli/nodwyddau, a deunyddiau a stociau a gedwir ym mhob ystafell driniaeth.		Caiff "gwiriad stoc" ei gynnal yn rheolaidd, felly mae trefniadau ar waith i wirio dyddiadau dod i ben cyffuriau argyfwng a stociau deunyddiau sydd ym mhob ystafell driniaeth.	Jo Sperduty a Jo Chappell	Bwriedir cynnal y gwiriad stoc nesaf ar ddydd Sadwrn, 6 Ionawr 2018.
Mae angen i'r practis sicrhau bod padiau pediatriig yn cael eu prynu i'w defnyddio gyda'r diffibriliwr.		Archebwyd y padiau pediatriig ar ddiwrnod yr arolygiad ac mae'r rhain wedi cyrraedd.	Barrie David	Ar unwaith
Rhaid i'r practis sicrhau bod gan y staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol a'u bod yn ei gwblhau.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl	Bydd y practis yn ymchwilio dyddiadau ar gyfer diwrnodau hyfforddiant diogelu ac yn sicrhau bod yr holl staff perthnasol sydd angen eu diweddarau yn y maes	Jo Sperduty Barrie David	Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hwn yn mynychu'r diwrnod hyfforddi hwn.		
Rhaid i'r practis roi rhaglen o wiriadau rheolaidd a manwl ar waith ar gyfer ei gywasgwr a chofnodi'r rhain mewn llyfr cofnodi.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae'r cywasgwr yn cael ei wirio'n flynyddol gan beiriannydd gwasanaeth a chaiff y cynhwysydd sy'n dal gormodedd o leithder ei wacáu bob wythnos. Bydd llyfr cofnodi'n cael ei gychwyn ar gyfer y gwiriadau hyn.	Barrie David	Mai 2018
Fel rhan o'i amrediad o archwiliadau clinigol, dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd lluniau.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Bydd archwiliad ar gyfer sicrhau ansawdd lluniau'n cael ei gynnal yn ystod 2018.	Barrie David	Mehefin 2018
Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:  Cyngor am roi'r gorau i ysmegu  Sgrinio am ganser	3.5 Cadw cofnodion	Bydd pob gweithiwr cyswllt yn cael ei atgoffa i gofnodi'r holl gyngor am roi'r gorau i ysmegu.  Ar hyn o bryd, cynhelir asesiadau risg ar gyfer sgrinio am ganser gan ddefnyddio system "goleuadau traffig" Dental Plus ar bob cyfrifiadur.  Cofnodir gwiriadau ar feinweoedd meddal gyda gwiriadau ar feinweoedd	Barrie David i gysylltu â phob gweithiwr cyswllt arall.	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Gwiriadau ar feinweoedd meddal</p> <p>Cynlluniau triniaeth</p> <p>Cyfiawnhau a chofnodi pelydrau-X</p>		<p>caled yn rheolaidd, a chaiff hyn ei nodi'n aml fel 'h/st'.</p> <p>Caiff cynlluniau triniaeth eu cyflawni'n rheolaidd.</p> <p>Mae angen i ni bwysleisio'r cyfiawnhad dros yr angen am radiograffau a'r angen i'w cofnodi.</p>		
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod hanesion meddygol cleifion yn gyfredol a'u bod yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd.</p>		<p>Mae'r practis eisoes yn cadw hanes meddygol manwl am gleifion, ac mae'r cleifion yn llofnodi pob diweddariad. Mae'r holl weithwyr cyswllt wedi cael cyfarwyddiadau i gydlofnodi'r cofnodion hyn.</p>	Barrie David	Ar unwaith
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
<p>Argymhellwn fod y practis yn adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau, ac yn eu diweddarau a'u storio lle bo'n briodol yn y ffeiliau, gan gael gwared ar fersiynau blaenorol.</p>	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Bydd adolygiad o'r holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael ei gynnal, gan gael gwared ar fersiynau blaenorol a hen sydd â'u dyddiad wedi dod i ben. Bydd y rhain yn cael eu gosod mewn ffeiliau ar wahân ar gyfrifiadur er mwyn i'r holl staff allu cael gafael arnynt yn hawdd ac er mwyn iddynt lofnodi'r polisïau pan</p>	Jo Chappell	Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		fyddant wedi'u harchwilio.		
Dylai'r practis adolygu ei bolisi diogelu plant ac oedolion er mwyn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau amddiffyn plant ac oedolion perthnasol.		Pan fydd yr adolygiad uchod yn cael ei gynnal, bydd manylion yr asiantaethau amddiffyn plant ac oedolion perthnasol yn cael eu cynnwys ym mhob polisi.	Jo Chappell	Mawrth 2018
Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, rhaid i'r practis arddangos tystysgrifau AGIC pob deintydd fel y gall cleifion eu gweld.		Gofynnwyd i'r holl weithwyr cyswllt wneud cais i AGIC am dystysgrifau gwreiddiol bellach er mwyn disodli'r llungopiau sydd wedi'u harddangos yn y practis.	Barrie David	Chwefror / Mawrth 2018
Argymhellwn fod y practis yn datblygu rhaglen ymsefydlu ac adolygu ffurfiol ar gyfer aelodau staff y dyfodol.	7.1 Y gweithlu	Er bod ein staff i gyd yn cwblhau hyfforddiant ymsefydlu cychwynnol ac arfarniadau blynyddol, rwyf wedi gofyn am help Kath Marshall, ein tiwtor y llynedd a'n harweiniodd ni drwy'r flwyddyn pan gawsom ein cydnabod fel practis y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth, er mwyn ceisio gwella'r rhaglen hon.	Barrie David	Mawrth 2018
Dylai'r practis gynnal asesiad risg o staff clinigol sy'n aros am gadarnhad o'u himiwnedd rhag hepatitis B, ac o'r nyrs ddeintyddol dan		Rwyf wedi bod mewn cysylltiad ag Iechyd Galwedigaethol am gyngor i gynnal asesiad risg ar staff sy'n aros am	Barrie David	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
hyfforddiant sy'n aros i gael y brechlyn.		<p>gadarnhad o'u himiwnedd rhag hepatitis B. Nid wyf wedi cael ymateb eglur, dim ond cael gwybod bod prinder cenedlaethol o'r brechlyn. Er enghraifft, rwyf i'n parhau i aros am fy ail frechlyn. Cynghorwyd yr holl staff sy'n ymwneud â thriniaethau clinigol uniongyrchol i gymryd rhagofalon ychwanegol wrth gyflawni'r triniaethau hyn, megis gwisgo "menig dwbl". Mae'r nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant wedi'i chyfyngu rhag cwblhau'r triniaethau clinigol uniongyrchol hyn, serch y ffaith ei bod wedi gwneud cynnydd arbennig o dda ar ei hyfforddiant, ac ennill marciau pasio yn y 90au uchel ym mhob un o'i harholiadau.</p> <p>Dydd Mercher, 27 Rhagfyr 2017 – gweler wedi'u hatodi:</p> <p>Copiâu o'r holl lythyrau a ddarparwyd ar gyfer y staff gan lechyd Galwedigaethol o ran eu cliriad iechyd i ymgymryd â phob agwedd ar eu rôl neu agweddau penodol ohoni</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Taflen wybodaeth gan lechyd Galwedigaethol ynghylch y brechiad hepatitis B		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth: Y Prif Ddeintydd**

**Enw (llythrennau bras):Barrie David**

**Swydd: Practis Deintyddol Cyffredinol**

**Dyddiad: 27 Rhagfyr 2017**